

# Gwnio a bredio



# Gwnïo a bredio

## Pinnau pen torch

**Pinnau pen torch** — roedd pinnau'n bwysig iawn yn y cyfnod canoloesol, ac wedi'u gwneud o asgwrn, esgryn pysgod, pren, drain, ifori, cragen neu fetel. Roedd pinnau'n cael eu defnyddio i ddal ffabrig ynghyd i'w wnïo, ac i ddal dillad eraill ynghyd, a defnyddiwyd pinnau efydd coeth neu binnau aloi copr i binio penwisgoedd menywod — roedd gwimplau'n cynnwys bandiau o ddefnydd wedi'u pinio ynghyd o amgylch hanner uchaf y pen a hefyd o'r ên i frig y pen, a gorchuddion yn cael eu pinio i'r bandiau.

Roedd pinnau'n cael eu gwneud drwy dynnu weiar aloi pres neu gopr (trwy ddei) i'r hyd angenrheidiol, hogi un pen, a thorchi weiar feddalach a theneuach o amgylch y pen arall i ffurfio 'pen'. Mae'r broses hon yn cynnwys 14-16 o gamau gwahanol, y cyfan yn cael eu gwneud â llaw. Roedd pinnau'n nwyddau moethus gwerthfawr yn y Canol Oesoedd.

Yn y 14eg Ganrif, pasiodd senedd Lloegr ddeddf yn caniatáu i'r gwneuthurwr pinnau werthu'i binnau mewn "siop agored" ar 1 a 2 Ionawr bob blwyddyn yn unig. Bwriad hyn oedd atal gwerthu'r "nwyddau moethus" hyn, fel yr ystyriwyd bryd hynny, yn ormodol. Ar y ddau ddiwrnod hwn o'r flwyddyn byddai boneddigesau'r llys a menywod y ddinas uchel ac isel eu statws yn heidio i'w prynu, ar ôl iddynt gael arian gan eu gwŷr yn gyntaf, o'r enw "arian pinnau." Pan ddaeth pinnau'n nwyddau rhad a chyffredin, roedd y boneddigesau'n gwario'u lwfansau ar nwyddau ffansi eraill, ond mae'r term "arian pinnau" yn parhau yn yr iaith Saesneg.



### Sut ydyn ni'n gwybod am binnau pen torch?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Gwnïo a bredio

## Nodwyddau pres

**Nodwyddau Pres** — byddai nodwyddau pres canolig a thenau wedi cael eu defnyddio gydag edau lliain neu sidan i wniö ffabrigau lliain a sidan coeth. Roedd y nodwyddau'n cael eu gwneud drwy dynnu weiar pres i'r hyd angenrheidiol, hogi un pen i bwynt, gwneud y pen arall yn fflat, a thyllu twll yn y pen fflat.

Mae edau lliain yn gryfach ac yn wydnach o ran treulio os yw'n cael ei redeg drwy ychydig o gŵyr gwenyn cyn ei ddefnyddio. Tybir yn gyffredinol fod yr arfer hwn yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol.



### Sut ydyn ni'n gwybod am nodwyddau pres?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Gwnïo a bredio

## Nodwyddau asgwrn

**Nodwyddau asgwrn** — Byddai nodwyddau asgwrn, a oedd yn fwy trwchus o lawer na phres, wedi cael eu defnyddio gydag edau gwlân neu liain i wnïo defnyddiau gwlân mwy garw. Efallai eu bod wedi'u defnyddio hefyd i wnïo lledr, gan bwytho trwy dyllau wedi'u gwneud gan ddefnyddio mynawyd neu declyn tebyg.



### Sut ydyn ni'n gwybod am nodwyddau asgwrn?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



# Gwnïo a bredio

## Cas nodwyddau lleidr

**Cas nodwyddau lleidr** — cas lleidr bach ar gyfer cadw pinnau a nodwyddau'n ddiogel. Roedd casys nodwyddau yn cael eu gwneud o leidr, asgwrn, cynnau a metel. Roedd pinnau a nodwyddau yn ddrud ac yn werthfawr, ac yn anodd cael gafael arnynt yn yr Oesoedd Canol, felly roedd angen gofalu amdanynt. Mae'r ddolen lleidr yn dangos bod y cas i fod i gael ei wisgo yn hongian o fel neu wregys.




### Sut ydyn ni'n gwybod am gasys nodwyddau lleidr?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol. Mae'r cas lleidr hwn wedi'i seilio ar enghreifftiau mewn llawysgrifau yn dyddio rhwng 1250–1600.

# Gwnïo a bredio

## Snipwyr

**Snipwyr** — y snipwyr hyn yw'r fersiwn ganoloesol o'r siswrn brodwaith, ac roeddent yn cael eu defnyddio i dorri edau wrth wñio neu frodio. Fe'u cedwir mewn cas lledr gyda dolen i'w hongian o wregys. Defnyddiwn fersiynau mwy o'r teclyn hwn ar gyfer tocwaith heddiw, ac roedd defaid yn cael eu cneifio gan ddefnyddio teclyn tebyg iawn yn y gorffennol.



### Sut ydyn ni'n gwybod am snipwyr mewn casys lledr?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

# Gwnïo a bredio

## Gwniadur pres ceg agored

**Gwniadur pres ceg agored** — galwyd yn 'thymel' yn yr Oesoedd Canol, a byddai wedi cael ei ddefnyddio i wthio'r nodwydd drwy ddeunyddiau brasach a lledr. Roedd gwniaduron yn cael eu gwneud o ledr hefyd, a phren.



### Sut ydyn ni'n gwybod am wniaduron ceg agored?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol. Cafodd y gwniadur hwn ei fwrw o un gwreiddiol o'r 13eg Ganrif.



# Gwnïo a bredio Botymau piwter

**Botymau piwter** — er bod botymau wedi'u defnyddio gan bobl ers o leiaf 3000CC, addurnol yn unig oedd y botymau cynnar hyn — ychydig fel broetshis wedi'u gwnïo. Daeth botymau ymarferol gyda rhwyllau i fachu neu gau dillad i'r golwg gyntaf yn yr Almaen yn gynnar yn y 13eg Ganrif, ac roeddent yn cael eu defnyddio'n gyffredin ledled Ewrop yn y 13eg Ganrif a'r 14eg Ganrif, wrth i ffasiynau newid ac wrth i dillad tynnach ddod yn ffasiynol. Mae'r botymau hyn wedi'u bwrw o biwter.



## Sut ydyn ni'n gwybod am botymau piwter?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



# Gwnïo a bredio

## Aiglet

**Aiglet** — roedd y blaenau hyn yn cael eu defnyddio ar rubanau, brediau a chordynnau. Gallai aigletau fod yn blaen neu'n addurnedig iawn. Mae cael blaen ar ben eich rhuban, cordyn neu frêd yn ei gwneud hi'n haws o lawer eu rhoi drwy dyllau i lasio dau ddarn o ddilledyn ynghyd. Roedd llawer o wisgoedd menywod yn cau drwy eu lasio, yn y blaen, y cefn neu'r ochr, ac weithiau roedd llewys wedi'u lasio at fodisiau. Roedd dillad dynion yn cael eu lasio weithiau, gan ddefnyddio lasys i gysylltu hosanau neu drowsus i siacedi a dwbleidi fel arfer, a hefyd llewys i siacedi. Rydym yn dal i ddefnyddio aiglets heddiw — maent wedi'u gwneud o blastig fel arfer, ar lasys/careiau i glymu esgidiau ac esgidiau hyfforddi.



### Sut ydyn ni'n gwybod am aiglets?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

# Gwnio a bredio Gwennol rwydo

**Gwennol rwydo** — fe'i defnyddiwyd i wneud rhwydi gwallt ar gyfer boneddigesau a menywod y dosbarth canol. Mae'r rhain wedi'u gwneud o aloi pres neu gopr, ac roedd yr edau a ddefnyddiwyd i wneud y rhwydi yn cael ei droelli o amgylch y wennol rhwng y pennau fforchog. Roedd y gwenoliaid yn cael eu defnyddio wedyn i basio'r edau rhwng edafedd eraill i wneud clymau gan ddal yr edafedd ynghyd i wneud rhwydi. Mae dulliau tebyg gan ddefnyddio gwenoliaid pren trymach o lawer yn dal i gael eu defnyddio heddiw i wneud rhwydi pysgota wedi'u clymu â llaw.



## Sut ydyn ni'n gwybod am wenoliaid rhwydo?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

# Gwnïo a bredio

## Lucet

**Lucet** — offeryn syml ar gyfer gwneud brêd wedi'i wehyddu. Roedd lwsetau yn cael eu gwneud o asgwrn, pren, corn ac ifori, a gellid eu defnyddio i wneud brêd un lliw neu ddeuliw, mewn nifer o batrymau syml a phatrymau mwy cymhleth. Mae sampl o frêd syml wedi'i wneud gan ddefnyddio'r lwset wedi'i chlymu i'r lwset.



### Sut ydyn ni'n gwybod am lucets?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.